County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

# AGENDA

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL |
| **Dyddiad ac amser y cyfarfod** | DYDD MAWRTH, 5 MEHEFIN 2018, 4.30 PM |
| **Lleoliad** | YSTAFELL BWYLLGORA 4 - NEUADD Y SIR |
| **Aelodaeth** | Cynghorydd Patel (Cadeirydd)<br>Y Cynghorwyr Henshaw, Philippa Hill-John, Owen Jones, Caerhirfryn, Jackie Parry, Owen, Wong a/ac Wood |

Tua Amser.

**1 Penodi Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor**

Nodi y penodwyd y Cynghorydd Ramesh Patel yn Gadeirydd y Pwyllgor a'r canlynol yn Aelodau'r pwyllgor yng nghyfarfod y Cyngor ar 24 Mai 2018:

Y Cynghorwyr Henshaw, Philippa Hill-John, Owen Jones, Lancaster, Jacqui Parry, Owen, Wong a Wood.

**2 Cylch Gorchwyl**

Rôl y Pwyllgor hwn yw craffu, mesur a hyrwyddo gwelliant ym mherfformiad y Cyngor o ran cynnig gwasanaethau a chydymffurfio â pholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ym maes cynaliadwyedd amgylcheddol, yn cynnwys:

- Polisi Cynllunio Strategol
- Polisi Cynaliadwyedd
- Polisi Iechyd yr Amgylchedd
- Polisi Diogelu'r Cyhoedd
- Polisi Trwyddedu
- Rheoli Gwastraff
- Projectau Gwastraff Strategol
- Glanhau Strydoedd
- Beicio a Cherdded
- Y Strydlun
- Partneriaeth Trafnidiaeth Strategol
- Polisi a Datblygu Trafnidiaeth

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. £ ** mewn costau argraffu

- Atebion Trafnidiaeth Deallus
- Trafnidiaeth Gyhoeddus
- Rheoli Parcio

Asesu effaith partneriaethau gyda, adnoddau a gwasanaethau a gynigir gan sefydliadau allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth leol ar y cyd, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd y canfyddiadau yn y cyfarfod Cabinet neu Gyngor perthnasol a rhoi argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor a'i wasanaethau yn y maes.

**3 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldebau.

**4 Datgan Buddiannau**

Dylid gwneud hyn ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

**5 Cofnodion** *(Tudalennau 5 - 12)*

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018 fel gwir gofnod.

**6 Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir – Cynllun Busnes 2018/19 ac Adroddiad Blynyddol 2017/18** *(Tudalennau 13 - 108)* 4.40 pm

(a) Gwahoddwyd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a'r Cynghorydd Norma Mackie, Cadeirydd Trwyddedu a Diogelu'r Cyhoedd i'r cyfarfod i wneud datganiad byr ar yr eitem 'Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir – Cynllun Busnes 2018/19 ac Adroddiad Blynyddol 2017/18' (os dymunant);

(b) Gwahoddwyd swyddogion o'r Gwasanaeth Rheoliadol A Rennir i wneud cyflwyniad ar yr eitem 'Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir – Cynllun Busnes 2018/19 ac Adroddiad Blynyddol 2017/18' ac ateb cwestiynau Aelodau;

(c) Cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

**7 Ymateb y Cabinet i Adfer ein Hafonydd** *(Tudalennau 109 - 212)* 5.25 pm

(a) Gwahoddwyd y Cynghorydd Michael Michael, Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd i'r cyfarfod a gwneud datganiad byr ar yr eitem 'Ymateb y Cabinet i Adfer ein Hafonydd' (os dymuna);

(b) Gwahoddwyd Swyddogion o’r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar yr eitem ‘Ymateb y Cabinet i Adfer ein Hafonydd’ ac i ateb cwestiynau gan Aelodau;

(c) Cwestiynau gan Aelodau’r Pwyllgor.

**8 Rheoli Coed** *(Tudalennau 213 - 240)* 5.55 pm

(a) Gwahoddwyd y Cynghorydd Peter Bradbury, yr Aelod Casbinet dros Ddiwylliant a Hamdden i fod yn bresennol yn y cyfarfod a gwneud datganiad byr ar yr eitem ‘Rheoli Coed’ (os dymuna);

(b) Gwahoddwyd Swyddogion o’r Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar yr eitem ‘Rheoli Coed’ ac i ateb cwestiynau gan Aelodau;

(c) Cwestiynau gan Aelodau’r Pwyllgor.

**9 Pwyllgor Craffu Amgylcheddol – Cynllunio Rhaglen Waith 2018/19** *(Tudalennau 241 - 248)* 6.35 pm

(a) Y Prif Swyddog Craffu i ofyn i Aelodau sut yr hoffent fwrw ati i ddatblygu Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn 2018/19;

(b) Bydd angen i’r Aelodau ystyried, awgrymu a chytuno ar ddull o ddatblygu Rhaglen Waith 2018/19 y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol.

**10 Y Ffordd Ymlaen** 7.05 pm

**11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol wedi’i drefnu ar gyfer 3 Gorffennaf 2018 am 4.30pm.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**
Dyddiad: Dydd Mercher, 30 Mai 2018
Cyswllt: Graham Porter, 02920 873401, g.porter@caerdydd.gov.uk

**GWE-DARLLEDU**

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Gall aelodau'r cyhoedd hefyd ffilmio neu recordio'r cyfarfod hwn

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd